

Adroddiad Blynyddol Statudol y Cyfarwyddwr ar Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin

2016/2017



Cynnwys

Rhagarweiniad	3
Crynodeb o Berfformiad	7
Beth y mae eraill yn ei ddweud wrthym am ein gwasanaethau	15
Hyrwyddo a gwella llesiant y rheiny yr ydym yn eu helpu	19
Safonau 1 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosïynol.	
Safonau 3 - Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.	
Safonau 4 - Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.	
Safonau 5 - Helpu pobl i gynnal perthynas iach â phobl yn y cartref, yn y teulu ac ar lefel bersonol.	
Safonau 6 - Helpu pobl i gyflawni gwell llesiant economaidd, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.	
Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion	24
a. Datblygu ein gweithlu	24
b. Cyllid a chynllunio ar gyfer y dyfodol.....	25
c. Arweinyddiaeth wleidyddol, llywodraethu ac atebolrwydd.....	26
Strwythur Rheoli	28
Atodiad 1- Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2017/18	29

Rhagarweiniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol

Fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, mae'n rhan o fy rôl i adrodd yn flynyddol ar ba mor dda y mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn perfformio at ei gilydd yn fy marn i.

Roeddwn yn falch o allu adrodd fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o'i swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol er gwaethaf yr amgylchedd ariannol heriol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru.

Rwyf yn hapus fod AGGCC wedi gwerthuso ein gwasanaethau fel rhai sydd at ei gilydd yn effeithiol:

"Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i elwa ar arweinyddiaeth gref ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant, gyda sefydlogrwydd da a chymorth effeithiol ar gyfer ei weithlu."

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn paratoi at weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a phartneriaid ac yn adlinio ein gwasanaethau i ymateb i'r gofynion newydd. Mae hyn wedi bod yn heriol i ni wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu mewn rhai meysydd yn erbyn hinsawdd o lymder ariannol. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf wedi darparu cyfle i ni ddatblygu gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth ac sy'n adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl, a all wella canlyniadau mewn modd arwyddocaol i'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yn ein gwerthusiad gan AGGCC y llynedd nodwyd ein bod wedi gwneud:

"Cynnydd da o ran gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac mae hyn wedi rhoi cryn bwysigrwydd ar sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio yn cael eu deall gan staff ac asiantaethau partner a'u rhoi ar waith a buddsoddiad i wireddu hynny. Mae bwrdd prosiect ar waith gyda chynllun gweithredu clir sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae cerrig milltir pwysig wedi ac yn parhau i gael eu cyflawni."

Rydym hefyd wedi cyflwyno Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i sicrhau ein bod yn cydbwysu'r berthynas rhwng y galw am wasanaethau, dyrannu adnoddau a boddhad defnyddwyr gwasanaeth. Mae gan y fframwaith gyfres o fesurau a gaiff eu monitro mewn cyfarfod misol a gadeirir gennyf innau. Mae dangosyddion allweddol mewn gwasanaethau plant wedi gwella gyda chynnydd gwirioneddol i'w weld mewn sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Mae angen gwneud rhagor o waith yn y gwasanaethau oedolion i wella prydlondeb yr adolygiadau o becynnau gofal. Mae hyn bellach yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr adran.

Mae'r galw am ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn tyfu'n gyson ledled Cymru. Yn hanesyddol mae'r gyllideb wedi gorwario, gyda'r ceisiadau am wasanaeth oddi wrth boblogaeth sy'n heneiddio yn drech na'r cyllidebau sydd ar gael. Wrth i'r boblogaeth sydd dros 85 oed yn y sir gynyddu gymaint â 3% y flwyddyn mae'n anochel y bydd rhaid i ni wario mwy ar y maes gwasanaeth hwn yn y tymor canolig i'r

tymor hir. Fodd bynnag, nod ein Strategaeth Pobl Hŷn, a lansiwyd y llynedd, oedd trawsnewid gwasanaethau trwy ddatblygu darpariaeth gymunedol a thrwy newid mewn diwylliant sy'n cydnabod bod pennu gofal gormodol i bobl yn eu gwneud yn fwy bregus a pheri eu bod yn colli eu hannibyniaeth. Mae ein gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig wedi ein galluogi i weithredu'r strategaeth hon yn effeithiol ac mae wedi golygu bod gofal cymdeithasol i oedolion bellach wedi llwyddo o fewn ei chyllideb ddyranedig am yr ail flwyddyn yn olynol, sydd yn groes i'r holl dueddiadau cenedlaethol. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref wrth i ni ystyried beth fyddai'r ffordd orau o fynd i'r afael â datblygu cyllidebau cyfun gydag iechyd erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf.

Mae'r gwaith o wella gwasanaethau atal ym maes plant wedi bod yn llwyddiant go iawn gyda mwy o blant bellach yn cael eu cadw gartref, sydd yn atal yr angen am ymyrraeth ffurfiol. Fodd bynnag, mae yna wasgfydd cynyddol o ran costau yn y Gwasanaethau Plant, gyda'r gwariant yn cynyddu mewn gofalu am ein plant sy'n derbyn gofal er gwaethaf y ffaith fod y niferoedd yn cwmpo. Mae recriwtio niferoedd digonol o ofalwyr maeth tra medrus bob amser wedi bod yn her, ond bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth yn y flwyddyn sydd i ddod. Roedd ein gwerthusiad gan AGGCC ar gyfer y llynedd yn nodi'r canlynol:

"Mae modelau ymarfer newydd yn seiliedig ar ymchwil, er enghraifft, Signs of Safety a'r model Hackney. Mae'r staff yn croesawu'r modelau hyn o weithio a cheir tystiolaeth gref o ddangosyddion perfformiad fod y rhain yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau ar gyfer plant. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i mewn i'r gwasanaethau statudol a'r cynnydd yn y defnydd o wasanaethau atal yn tystio i'r effaith hon."

Un ffactor bwysig a gyfrannodd at reoli adnoddau'n well oedd gweithredu ein fframwaith comisiynu ar gyfer gofal cartref. Rhoddodd Sir Gaerfyrddin fframwaith ar waith ar gyfer darparwyr annibynnol sy'n sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ansawdd yn hytrach na chost, sy'n monitro hyd galwadau'r darparwyr yn awtomatig ac sy'n galluogi'r darparwyr i ddefnyddio'r oriau mewn modd mwy hyblyg fel nad yw galwadau ar gyfer pobl agored i niwed yn cael eu torri'n fyr. Mae'r fframwaith hwn wedi ein rhoi ymhlith y rhai mwyaf blaengar yng Nghymru ac o ganlyniad rydym wedi gweithio gydag AGGCC i gynnal gweithdai cenedlaethol i gynorthwyo awdurdodau eraill i wella yn y maes heriol hwn. Y llynedd rhoesom y gorau hefyd i allgcontractio gofal cartref ymhellach, gan ffafrio yn hytrach ein bod yn buddsoddi yn ein gwasanaeth mewnol. Dros y flwyddyn nesaf disgwyliwn weld cynnydd bach yng nghyfran y gofal cartref a ddarperir gan ein gwasanaeth mewnol.

Byddwn hefyd yn cynyddu'r cyflenwad o ofal ychwanegol a gofal nyrsio drwy'r datblygiad Llynnoedd Delta, gan adeiladu ar lwyddiant y datblygiadau Gofal Ychwanegol yn Rhydaman a Chaerfyrddin. Rydym yn cadw ein darpariaeth breswyl fewnol bresennol wrth ystyried pa fuddsoddiad cyfalaf fydd ei angen i wella'r amgylcheddau ffisegol.

Mae cynnig dewis gweithredol o iaith asesu i'n cymunedau wedi bod yn flaenoriaeth ac rwyf wrth fy modd fod ein cynnydd wedi cael ei gydnabod gan AGGCC:

"Mae fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn cael ei weithredu'n effeithiol, gyda mesurau ar waith i sicrhau bod gan bobl fynediad i'r gwasanaethau drwy eu dewis iaith."

Bwriadwn bwysleisio'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sir i staff proffesiynol ddatblygu eu sgiliau iaith gan fod rhai yn parhau i fod yn brin o hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, yn aml gan hunanwerthuso eu sgiliau iaith fel rhai sy'n is nag ydynt mewn gwirionedd.

Mae ein Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd yn darparu un rhif, 24 awr y dydd er mwyn cael cyngor a chymorth ynghylch gofal cymdeithasol a bydd hyn, ynghyd â'r penderfyniad i greu gwasanaeth gwaith cymdeithasol pwrpasol y tu allan i'r oriau arferol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion, yn rhoi'r siawns orau bosibl i ni o gael yr help iawn i bobl ar yr adeg iawn. Bydd hyn yn estyniad o'r gwasanaethau gwaith cymdeithasol sy'n cwmpasu'r Sir yn ystod y dydd, gan gynnwys ysbytai ar benwythnosau. Rwyf yn hyderus ein bod ar flaen y gad ym maes datblygiadau yn y rhan hon o Gymru.

Mae Diogelu Oedolion yn flaenoriaeth a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi buddsoddi mewn strwythur newydd ar gyfer y gwasanaeth hwn i wella'r amserau ymateb a sicrhau bod gennym y gallu i atal pobl agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Mae hon wedi bod yn rhaglen lwyddiannus o newid, a chyda'r gwelliant yn yr amserau ymateb gallwn fod yn hyderus y bydd y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned yn fwy diogel nag erioed. Rwyf yn cadeirio'r Bwrdd Diogelu Plant rhanbarthol sy'n cwmpasu ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae twf cyson wedi bod yn effeithiolrwydd y corff hwn wrth i ni ddechrau gweld y manteision o gyfuno adnoddau ledled y rhanbarth. Un cynnydd allweddol sydd wedi bod yn hyn o beth yw datblygu dogfen drothwy ranbarthol ar gyfer plant. Dylai hyn ein galluogi i sicrhau cysondeb o ran dull ac wrth ymyrryd ar draws asiantaethau ac i wella canlyniadau.

Roedd ein gwerthusiad gan AGGCC ar gyfer y llynedd yn dweud fel a ganlyn:

"Mae gan Sir Gaerfyrddin gynrychiolaeth gref ar ran gofalwyr ar y bwrdd Partneriaeth Gofalwyr a'r bwrdd gofalwyr Strategol Rhanbarthol, mae ganddynt lais cryf ac maent yn dal yr awdurdod lleol i gyfrif wrth sicrhau bod anghenion y gofalwyr yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae'r grwpiau hyn wedi bod yn allweddol wrth godi materion yn ymwneud â diffygion mewn asesiadau gofalwyr ac mae'r awdurdod wedi datblygu swydd newydd i gwblhau'r dasg hon yn fwy effeithiol.

Mae gofalwyr ifanc yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ffurfio'r gwasanaethau cymorth ac mae Siarter Gofalwyr Ifanc ar waith. Dywedodd y gofalwyr ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda ac roedd yr arsylwadau yn dangos eu bod wedi datblygu rhwydwaith cefnogol effeithiol gyda'i gilydd a'r gweithwyr sy'n eu cefnogi."

Dros y flwyddyn nesaf mae'n hanfodol ein bod yn gosod y sylfeini ar gyfer cyflwyno a datblygu gwasanaethau sydd yn gosod y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u teuluoedd a'u gofalwyr wrth wraidd y broses gynllunio.

Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd mewn hinsawdd o lymder ariannol, ond mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd yn rhoi cyfleoedd i ni i gydweithio mwy, bod yn fwy arloesol ac yn fwy creadigol wrth ddod o hyd i atebion gyda'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac yn y gymuned ehangach.

Diogelu Plant ac Oedolion

Byrddau Diogelu yw'r prif ddull statudol o gytuno ar sut y bydd y sefydliadau perthnasol ym mhob ardal yn cydweithio i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, ac o sicrhau effeithiolrwydd yr hyn y maent yn ei wneud.

I gyflawni amcanion Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn effeithiol, ceir un Bwrdd ar gyfer Plant ac un ar gyfer Oedolion, gyda materion trawstoriadol yn cael eu rheoli ar y cyd ar draws y ddau.

Diogelu Plant

CYSUR: Diogelu Plant a Phobl Ifanc; Uno'r Rhanbarth

Amcanion:

- **AMDDIFFYN** plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu eu niweidio mewn rhyw ffordd arall, neu sydd mewn perygl o ddioddef hynny, ac
- **ATAL** plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu eu niweidio mewn rhyw ffordd arall.



Diogelu Oedolion

CWMPAS: Cydweithio a Chynnal Partneriaeth ar gyfer Diogelu Oedolion

Amcanion:

- **AMDDIFFYN** oedolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru:
 - Y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac
 - Sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod; ac
- **ATAL** yr oedolion hynny yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso.



Rhoddwyd y model ymarfer 'Signs of Safety' hefyd ar waith yn ein holl gynadleddau achosion amddiffyn plant a phrosesau diogelu oddi ar fis Mehefin 2016, ac rydym wedi gweld gostyngiad arwyddocaol yn nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant eleni.

Rydym wedi parhau i weld gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y pum mlynedd diwethaf o 271 yn ystod 2012/13 i 206 ddiwedd mis Mawrth 2017 (gostyngiad o 13%; 10% oddi ar 2015/16).

71.1% – teimlai 96 o rieni eu bod wedi cael eu cynnwys yn weithredol ym mhob penderfyniad ynghylch sut oedd gofal a chymorth eu plentyn/plant yn cael ei ddarparu, a theimlai 26 arall (19.3%) eu bod 'weithiau' yn cael eu cynnwys yn hyn.

Adroddiad Arolygu AGGCC (cyhoeddwyd ym mis Medi 2016)

"Gwelsom fod yna drefniadau arwain, rheoli a llywodraethu ymrwymedig ac effeithiol ar waith yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr Uwch Dim Rheoli a'r aelodau etholedig yn arddangos arweinyddiaeth effeithiol ac roedd ganddynt weledigaeth glir ynghylch sut yr oeddent am i wasanaethau plant fod."

Jake Morgan, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Crynodeb o Berfformiad

Nod yr adroddiad hwn yw gwerthuso pa mor dda y mae ein gwasanaethau wedi cael eu cyflwyno, a thynnu sylw at unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Mae fformat yr adroddiad hwn yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf, a'r angen i fesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol o amgylch y chwe safon hyn.


Mae hefyd yn bwydo i mewn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru - helpu i greu man lle'r ydym i gyd eisiau byw. Yn awr, ac yn y dyfodol.

Perfformiad ym maes Oedolion

Mae'r gwaith o drawsnewid ein gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos bod perfformiad wedi gwella mewn meysydd targed lleol a chenedlaethol allweddol.


- Gwell perfformiad mewn gofal heb ei drefnu mewn perthynas ag Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal
- Lleihad mewn comisiynu gofal a chymorth yn y cartref o 1110 i 1020

Nifer y Cleientiaid yn Derbyn y Gwasanaeth ar Ddiwedd y Mis



- Lleihad yn y nifer a dderbyniwyd i ofal preswyl tymor hir o 1000 i 992


Nifer y Cleientiaid yn Derbyn y Gwasanaeth ar Ddiwedd y Mis



- Hyd arhosiad mewn cartref preswyl ar gyfartaledd yw 989 diwrnod
- Nifer yr asesiadau o oedolion a gwblhawyd = 3906
- Nifer yr asesiadau o ofalwyr a gwblhawyd = 384


Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llwyddo i leihau nifer yr unigolion sy'n derbyn gofal ffurfiol ac wedi sicrhau bod y gofal a ddarperir wedi bod yn gymesur â'u hanghenion fel y'u haseswyd. O ganlyniad, rydym wedi lleihau gwariant a hefyd rydym wedi gweld lleihad yn nifer y cleifion a brofodd Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal mewn ysbyty wrth aros am ddarpariaeth ofal i'w cynorthwyo wedi iddynt gael eu rhyddhau.

Caiff oedi cyn trosglwyddo gofal ei brofi gan glaf preswyl mewn ysbyty yr ystyrir ei fod yn ffit yn feddygol ac yn weithredol sefydlog ac sydd yn barod i symud ymlaen i gam nesaf ei ofal, ond sy'n cael ei atal rhag gwneud hynny.



* 2016/17 Bydd Data Cymru Gyfan ar gael yn Hydref 2017

Mae'r graff isod yn dangos cyfradd yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o bobl 75 oed a hŷn yn Sir Gaerfyrddin.



* Diffinnir rhesymau gofal cymdeithasol fel: Asesiad Gofal Cymunedol' aros am gwblhau materion yn ymwneud ag asesu, tai, addasiadau i'r cartref, gofal cartref, lleoliadau gofal preswyl ac ariannu.

Mae'r gwelliant hwn wedi cael ei briodoli i ddau brif faes o wella gwasanaeth:


Gweithredu Fframwaith Gofal Cartref diwygiedig a oedd;

- Yn sicrhau bod y telerau a'r amodau a gynigir i weithwyr yn caniatáu i staff o ansawdd gael eu recriwtio a'u cadw mewn marchnad lafur gystadleuol.
- Yn datblygu ac yn gweithredu prosesau cadarn a oedd yn golygu bod modd monitro'r gwasanaeth a'r darparwr yn effeithiol.
- Yn nodi amrywiannau rhwng cyflawni'r gwasanaeth a'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn gynnar yn y broses.
- Yn darparu gwybodaeth amserol i nodi defnyddwyr gwasanaeth y mae angen adolygu eu pecynnau gofal.
- Yn rhyddhau gallu oddi wrth becynnau presennol trwy nodi gor-ddarpariaeth fel bod modd ailddyrrannu'r adnodd hwn i ddefnyddwyr gwasanaeth eraill.

Y fenter Rhyddhau Amser i Ofalu a oedd:


- Yn cyflwyno arferion asesu amlddisgyblaethol cadarn a goruchwyliaeth broffesiynol i sicrhau bod y ddarpariaeth ofal a gomisiynir yn gymesur ag anghenion yr unigolyn ac nad oedd modd ei darparu trwy ffyrdd eraill.
- Cafodd cyfanswm o 55% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu rhyddhau'n llwyddiannus heb fod angen unrhyw wasanaeth arnynt yn dilyn yr ymyriad ailalluogi.

Canlyniadau Ailalluogi Ebrill - Mawrth



- Rydym wedi datblygu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd; yn ystod 2017/18 bydd y prosiect yn cael ei reoli ymhellach i ymgorffori is-adrannau eraill yn y gwasanaeth.
- Cwblhaom asesiad o anghenion y boblogaeth Ranbarthol ym mis Mawrth 2017. Yn ystod 2017/18 byddwn yn datblygu'r Cynlluniau Ardal ymhellach.
- Canran yr ymholiadau yn ymwneud ag amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod = 75.6% yn erbyn y Targed a osodwyd sef 75%.
- Rydym yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac rydym wedi sefydlu tîm bychan.
- Byddwn yn parhau i fonitro a chyflawni'r ôl-groniad o adolygiadau sydd heb eu cwblhau ar draws y Gwasanaethau Oedolion, sef un o'n prif flaenoriaethau yn ystod 2017/18.

Adolygiadau



- Rydym yn parhau i hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg mewn Gofal Cymdeithasol drwy'r cynllun gweithredu ar gyfer 'Mwy na Geiriau'.
- Rydym wedi lleihau nifer y diwrnodau calendr a gymerir i brosesu grant cyfleusterau i'r anabl o 232 diwrnod i 163 diwrnod.
- Yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gasglu gwybodaeth ansoddol am bobl sy'n defnyddio eu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol drwy holiadur blynyddol.

Nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar gyfer gwasanaethau oedolion oedd 626. Mae hyn yn gyfradd ymateb o 43%. Rydym yn ystyried bod hyn yn uchel dros ben, ac mae'r enghreifftiau o'r ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Mae 81% yn teimlo eu bod yn byw mewn cartref sy'n cynnal eu llesiant yn y modd gorau.
- Dim ond 3% a deimlai nad oedd eu cartref yn cynnal eu llesiant.
- Teimlai 49% eu bod yn rhan o gymuned.
- Dywedodd 18% nad oeddent yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned.
- Dywedodd 73% eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwmpo y tu mewn a'r tu allan i'w cartref fel ei gilydd.
- Dywedodd 72% o bobl eu bod yn meddwl eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan fydd angen hyn arnynt.
- Roedd 85% yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.


O ran gofalu sy'n derbyn cynllun gofal a chymorth, anfonwyd 30 o holiaduron i gyd. Derbyniwyd 28 o ymatebion i'r arolwg. Mae hyn yn gyfradd ymateb o 93%.

- Teimlai 43% o'r ymatebwyr eu bod yn rhan o gymuned.
- Teimlai 75% o bobl eu bod yn hapus â'r cymorth yr oeddent yn ei gael gan ffrindiau a theulu.
- Dywedodd 82% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu rhag cwmpo y tu mewn a'r tu allan i'w cartref fel ei gilydd.
- Teimlai 71% o bobl eu bod wedi cael eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau am y modd yr oedd eu gofal a'u cymorth yn cael ei ddarparu.

- Roedd 89% o'r ymatebwyr yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- Teimlai 86% o bobl eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Roedd 70% o bobl yn hapus â'r cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn.

Rydym wastad yn ceisio datrys cwynion yn gynnar gan sicrhau cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r sawl sy'n gwneud y gŵyn. Pan dderbynnir cwyn newydd anfonir copi at reolwyr y gwasanaeth i'w helpu i nodi materion; mae hyn yn rhoi adborth defnyddiol i ni.


Cwynion Cam 1 a Cham 2 2016/17




Perfformiad Gwasanaethau Plant

- Byddwn yn gweithredu ein cynllun ar gyfer gwella sefydlogrwydd lleoliadau, ac yn cyfnerthu'r gwasanaeth Mabwysiadu rhanbarthol ac yn datblygu cymorth Mabwysiadu yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Gweithredu'r model Uned Plant a Theuluoedd systematig o weithio mewn timau gwasanaethau plant.
- Rydym wedi datblygu'r dull Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) ar draws y Sir ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed fel modd o gael mynediad i wasanaethau atal, a mynd ati i gynllunio ar gyfer newid yn y dyfodol a chynaliadwyedd gyda golwg ar newidiadau i'r grant Teuluoedd yn Gyntaf sy'n canolbwyntio ar leihau'r angen am ofal a chymorth statudol.


Mae'r graff yn dangos fod y Gwasanaethau Plant wedi gweld cynnydd yn y nifer a gafodd eu hatgyfeirio eleni, mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn codi ymwybyddiaeth ar draws asiantaethau gan gynnwys hyfforddiant mewn ysgolion, ynghyd â'r cyhoeddusrwydd yn dilyn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.





Rydym wedi parhau i weld gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y pum mlynedd diwethaf o 271 yn ystod 2012/13 i 206 ar ddiwedd mis Mawrth 2017 (lleihad o 13%; 10% oddi ar 2015/16).



Mae'r model ymarfer 'Signs of Safety' hefyd wedi cael ei weithredu yn ein holl gynadleddau achos amddiffyn plant a'n prosesau diogelu oddi ar fis Mehefin 2016, ac rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant eleni.



Mae'r graffiau isod yn mesur i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn gallu lleoli plant gan sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar eu bywydau, a thrwy hynny ddarparu rhywfaint o sefydlogrwydd.



Rydym wedi parhau i berfformio'n dda wrth gynnal plant sy'n derbyn gofal yn yr un ysgol (2il yng Nghymru yn ystod 2015/16) sydd wedi arwain at ganlyniadau addysg da. Cyflawnodd yr holl blant, gan gynnwys y rheiny sy'n derbyn gofal pan yn 15 oed (fel ar yr 31ain Awst blaenorol) gymhwyster allanol cymeradwy. Mae Rhianta Corfforaethol, y Tîm Plant sy'n Derbyng Gofal (Grant Amddifadedd Disgyblion) a'r Gwasanaeth Lles Addysg (EWS) yn darparu cymorth parhaus i ysgolion.

- Cyflawnodd 56.6% o'r plant sy'n derbyn 'gofal a chymorth' y dangosydd pynciau craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 2 (SCC/29a)
- Cyflawnodd 18.0% o'r plant sy'n derbyn 'gofal a chymorth' y dangosydd pynciau craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 4 (SCC29b)
- Yr Holl Ddisgyblion sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol, (a oedd yn 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol) a adawodd addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith gyda chymhwyster allanol cymeradwy

Mae'r tîm Cam Nesaf yn darparu ystod gynyddol o hyfforddiant a chymorth i bobl sy'n gadael gofal er mwyn helpu i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Ar hyn o bryd mae gennym 40 o bobl a adawodd ofal mewn addysg bellach, 13 mewn gwaith amser llawn, 13 ar gynlluniau hyfforddi a 4 mewn Addysg Uwch.

- Mae 56.3% o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2015/16 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 9 allan o 16 o bobl ifanc) (SCC/34a)

- Mae hanner (50%) o'r rheiny a adawodd ofal yn ystod 2014/15 yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (h.y. 10 allan o 20 o bobl ifanc) (SCC/34b)
- Mae 30+ o bobl ifanc bellach yn cael mynediad i drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' ac yn aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed os yn briodol.

Yn ystod 2015/16 Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod oedd yn perfformio waethaf yng Nghymru o ran plant sy'n derbyn gofal a symudodd lleoliad dair gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn, sef cyfradd o 14.9% (o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 9.8%). Fodd bynnag, yn ystod 2016/17 rydym yn falch o fod wedi gweld gwelliant o 9.2%. Ceir llawer o bobl ifanc nad ydynt yn dymuno bod yn y system ofal, er bod hynny o fudd iddynt. O ganlyniad mae lleoliadau'n mynd yn fregus ac yn chwalu er gwaethaf ymdrechion gorau'r adran. Mae rhai plant wedi dychwelyd i fyw gyda rhiant/gofalwr sy'n berthynas iddynt, sydd hefyd yn cyfri fel symud lleoliad ond fel achos cadarnhaol.

Rydym wedi derbyn yr ymatebion canlynol i'r arolwg ar gyfer Gwasanaethau Plant:

- Cwblhaodd 169 o blant 7-17 oed yr arolwg (36 o blant 16-17 oed).
- Dywedodd 81.7% (138) eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth yr oeddent wedi'i gael (dywedodd 22 eu bod yn hapus â hyn weithiau, roedd 7 plentyn heb ateb, dim ond 1.2% (2 blentyn) a ddywedodd eu bod yn anhapus).
- Dywedodd 72.2% o blant 16-17 oed (26) eu bod wedi cael y cyngor, yr help a'r cymorth a fydd yn eu paratoi at fywyd fel oedolyn; dywedodd 4 nad oeddent wedi cael hyn.
- Roedd 1,061 o rieni plant a oedd yn cael gofal a chymorth fel ar 1 Medi 2016 (281 gwryw; 780 benyw) yn cyfateb i 857 o aelwydydd (derbyniwyd 135 o ymatebion).
- Teimlai 71.1% (96) o rieni eu bod wedi cael eu cynnwys yn weithredol ym mhob penderfyniad ynghylch sut y darparwyd gofal a chymorth eu plentyn/plant, a theimlai 26 arall (19.3%) eu bod 'weithiau' yn cael eu cynnwys yn hyn. Teimlai 8.9% (12 o rieni) nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau.

Beth y mae eraill yn ei ddweud wrthym am ein gwasanaethau?

Nododd Adroddiad Arolygu AGGCC (cyhoeddwyd ym mis Medi 2016) bod "angen mwy o weithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau partner i ddatblygu dull integredig o gyflwyno gwybodaeth, cyngor a chymorth, gwasanaethau atal a darpariaeth statudol er mwyn cael gwell dilyniant a lleihau dyblygu ar gyfer plant a theuluoedd sy'n cael mynediad i'r gwasanaethau hyn".

"Gwelsom fod yna drefniadau arwain, rheoli a llywodraethu ymrwymedig ac effeithiol ar waith yn Sir Gaerfyrddin. Dangosai'r Uwch Dîm Rheoli a'r aelodau etholedig arweinyddiaeth effeithiol ac roedd ganddynt weledigaeth glir ynghylch sut yr oeddent am i wasanaethau plant fod. Roedd hyn yn cael ei gyfleu'n rhesymol dda i'r staff. Gallai busnes gwasanaethau plant fod wedi cael blaenoriaeth uwch trwy drefniadau craffu 20. Gwelsom beth tystiolaeth o fod yr awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso ei berfformiad ei hun, yn enwedig trwy'r ganolfan Tîm o Amgylch y Teulu a'r adolygiad allanol o'r plentyn mewn angen a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Gallai gwaith gyda phartneriaid, yn enwedig ar lefel ranbarthol, gael ei gryfhau mewn modd defnyddiol. Gwelsom weithlu ymrwymedig a sefydlog sydd â phrofiad addas. Roedd y seiliau yn eu lle i ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir ymhellach yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant."

Y digwyddiad Comisiynu a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ac y bu'r Prif Arolygydd Cynorthwyol David Francis yn bresennol ynddo ym mis Mawrth 2017. Llythyr o gydnabyddiaeth. Trefnodd y Cyngor y digwyddiad mewn ymateb i'r holl ddiddordeb a ddangoswyd yn yr arferion da yr oeddem wedi tynnu sylw atynt yn ein harolygiad, ac i gydnabod mai Sir Gaerfyrddin yn ein barn ni oedd y mwyaf blaenllaw am fabwysiadu dulliau comisiynu sydd yn gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Dyma'r hyn a ddywedodd yntau:

"Cyflwynodd Sir Gaerfyrddin eu dull yn fanwl, y daith a'r canlyniadau hyd yn hyn a'u cynlluniau wrth feddwl tua'r dyfodol. Credaf o ddifri fod llawer i'w wneud wrth feddwl am fframweithiau cenedlaethol"

Wrth bennu newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau i gipio gwybodaeth am effaith y newid mewn gwasanaethau. Mawrth 2017.

“Mae gan y Cyngor drefniadau monitro sefydledig a hygyrch ar waith ar gyfer rheoli perfformiad, yn bennaf trwy ei system Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS).”

Enghreiffiau lle'r ydym wedi sefydlu trefniadau gwerthuso ac adrodd gyda sefydliadau Partner, i fonitro cynnydd ac effaith y newid yn y gwasanaeth.

“Yn dilyn ailstrwythuro'r timau gwaith cymdeithasol ('Adfer Gwaith Cymdeithasol'), roedd yr adborth a gafwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Cymru (IAA), a'r fenter Tîm o Amgylch y Teulu, yn rhoi cyngor ynghylch sut y gellid gwella'r ailstrwythuro ymhellach a mesur effaith hyn yn fwy effeithiol.”

“Ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, cymerodd y Cyngor ran mewn astudiaeth a oedd yn edrych ar i ba raddau y mae ei raglen adfywio tai cymdeithasol (Safon Tai Sir Gaerfyrddin), a gynlluniwyd i fodloni safonau ansawdd tai, o fudd i iechyd y trigolion ac yn darparu gwerth economaidd.”

Gwobrau Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 11 Hydref 2016.

“Derbyniodd staff gofal cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin gydnabyddiaeth am eu gwaith mewn seremoni wobrwyo genedlaethol. Cafodd pum aelod o staff a dau dîm eu cymeradwyo gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW).”

Cwynion a Chanmoliaeth

Defnyddir cwynion a chanmoliaeth fel adborth i wella perfformiad. Roedd rhai o'r canmoliaethau a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

Defnyddiwr gwasanaeth yn disgrifio beth sy'n bwysig iddi hi:

"Rwyf yn hapus â'r gofalwyr, maen nhw'n mynd â fi i gael coffi, i gael bwyd ac i'r eglwys."

Aelod o'r teulu mewn perthynas â sefyllfa ddiogelu:

"Byddaf yn rhoi gwybod i Bennaeth y Gwasanaeth ac i'r Cyfarwyddwr cymaint o gymorth yr ydych wedi bod, a'ch bod wir yn rhoi'r cwsmer yn y canol."

Rhywun a dderbyniodd wasanaeth gan y Tîm Camddefnyddio Sylweddau:

"Diolch yn fawr iawn i chi am bopeth a wnaethoch i mi, yn enwedig fy nghael i mewn i ofal adsefydlu a rhoi'r cyfle i mi fod yn berson ac yn rhiant gwell, allwn i ddim fod wedi gwneud hyn hebdoch chi."

Sefydliad o'r trydydd sector:

"Rydym yn hapus iawn gyda pha mor gyflym y mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ymateb pan fyddwn yn gofyn am wybodaeth a'i agwedd tuag at adolygiadau Teimlwn ein bod cael cefnogaeth dda."

AGGCC yn dilyn arolygiad o'r cynllun Rhannu Bywydau yn 2016:

"At ei gilydd, gall pobl fod yn hyderus y bydd y gwasanaeth yn darparu amgylchedd diogel a sicr lle gallant gael eu cynnwys a lle byddant yn cael eu trin ag urddas a pharch."

Aelod o'r teulu mewn perthynas â phrosiect cymorth byw:

"Rwyf yn hapus dros ben gyda'r cymorth y mae Mam yn ei gael yn awr. Mae hi'n cyfathrebu'n well, mae ei hiechyd meddwl wedi gwella yn ogystal â'i bywyd cymdeithasol. Mae'r staff yn ymlaciedig ac mae amgylchedd y cartref yn llawn hwyl. Gwych!"

Gofalwyr

Yn dilyn nifer o gŵynion gan ofalwyr sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen, gyda Chyfarwyddwr yr Adran Cymunedau yn gadeirydd arno, gyda'r gofalwyr er mwyn canfod sut y gellid gwella gwasanaethau. Sefydlwyd nifer o fentrau o ganlyniad uniongyrchol i'r adborth hwn gan gynnwys:

- Nodi eiriolwyr dros ofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol.
- Sefydlu swydd asesu a gwybodaeth y gofalwr.
- Datblygu cymhwysedd clir ac amserlenni ar gyfer asesiadau gofalwr.

Addewid Hawliau Plant Sir Gaerfyrddin

Rhoddir addewid i blant ledled Sir Gaerfyrddin y bydd eu hawliau yn cael eu hanrhydeddu a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae uwch-gynghorwyr a swyddogion wedi llofnodi adduned a fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn bodloni'r safonau gofynnol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn golygu y bydd pobl ifanc ifanc hyfforddedig yn craffu ar y penderfyniadau a wneir yn flynyddol. Llofnodwyd yr adduned gan Arweinydd y Cyngor sef y Cynghorydd Emlyn Dole, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg y Cynghorydd Gareth Jones, y Prif Weithredwr Mark James, y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Rob Sully, a Chadeirydd Cyngor Ieuencid Sir Gaerfyrddin Brittany Alsop-Bingham, a hynny cyn y Diwrnod Hawliau Plant, 20 Tachwedd 2016.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Jones:

"Mae gan bob oedolyn sy'n gweithio i Gyngor Sir Caerfyrddin ddyletswydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel, yn hapus ac yn iach. "Gallwn wneud hyn drwy sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod beth yw eu hawliau a sut i'w cael; mae buddiannau plant a phobl ifanc yn bwysig i'n sefydliad."

Hyrwyddo a gwella llesiant y rheiny yr ydym yn eu helpu

Y chwe safon yw:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol.
- Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
- Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.
- Cynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal perthynas iach â phobl yn y cartref, yn y teulu ac yn bersonol a hynny mewn modd diogel.
- Gweithio gyda a chynorthwyo pobl i gyflawni gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

'Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf ein bod yn datblygu'r gwaith a wnawn mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill megis Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac awdurdodau lleol eraill megis Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion i raddau mwy. Fodd bynnag, yn fwy pwysig, mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwyslais ar fwy o weithio mewn partneriaeth â'r unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr. Rydym yn gwneud hyn trwy drin pobl fel partneriaid cyfartal a chynorthwyo unigolion i nodi eu hanghenion eu hunain, eu nodau neu'u canlyniadau personol, a sut y maent yn mynd i gyflawni'r canlyniadau hyn. Drwy fabwysiadu'r dull hwn, rydym yn cynhyrchu asesiad o'r anghenion ar y cyd â'r unigolyn sydd angen gofal a chymorth gan roi rhagor o reolaeth iddo a gwell canlyniadau. Rydym yn newid ein ffocws i atal, yn hytrach na ymdrin â phroblemau mwy cymhleth sydd gan unigolyn yn ôl y galw, rydym yn edrych ar ymyrraeth gynnar ac yn atal pobl rhag cyrraedd y cam hwnnw. Yr hyn sydd wrth wraidd popeth a wnawn yn awr yw llesiant yr unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth a llesiant unrhyw ofalwr. Ceir diffiniad penodol o lesiant yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Isod ceir disgrifiad byr o rai o elfennau'r hyn a olygir wrth lesiant yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a rhai enghreifftiau o'r modd yr ydym yn hyrwyddo'r elfen honno o lesiant:

- **Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.**

Rydym wedi datblygu proses asesu safonol ar draws yr holl wasanaethau cymdeithasol i oedolion sy'n canolbwyntio ar y pum elfen o asesu gan edrych ar yr hyn sy'n cyfri i'r unigolyn a gaiff ei asesu ac sy'n canolbwyntio ar ei amgylchiadau personol, ei ganlyniadau personol, y rhwystrau sy'n atal y person rhag cyflawni'r canlyniadau hynny, y risgiau o beidio â chyflawni'r canlyniadau hynny a chryfderau ac adnoddau'r unigolyn i allu cyflawni ei ganlyniad personol ei hun. Trwy gael un asesiad ar draws yr holl wasanaethau cymdeithasol i oedolion bydd hyn yn cyflawni gwasanaeth mwy cyson ar draws yr is-adran gyfan ac yn sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'r person a gaiff ei asesu fel partner cyfradd i gynhyrchu asesiad wedi'i bersonoli o'r unigolyn hwnnw. Rydym hefyd yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni safon gyson ymhlith yr unigolion hynny sy'n ymgymryd ag asesiadau o unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio gyda thri sefydliad addysg bellach i gynllunio cwrs penodol y mae rhaid i'r holl aseswyr nad oes ganddynt gymhwyster asesu presennol ei gyflawni.

Mae Credydau Amser yn cefnogi'r gwaith o adeiladu cymunedau. Mae'r oriau a roddwyd gan y gymuned ers dechrau partneriaeth Spice â Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Caerfyrddin o'r diwedd wedi

codi dros 45,000 i'r ffigur anhygoel o 45,895 awr o sgiliau a phrofiadau a roddwyd gan denantiaid a phreswylwyr Sir Gaerfyrddin drwy'r Credydau Amser.

Mae Clybiau Tanwydd Sir Gaerfyrddin wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Tai'r Deyrnas Unedig ar gyfer Ymgyrch Arbennig y Flwyddyn 2017. Oddi ar 2014 mae'r Gwasanaethau Tai wedi sefydlu 17 o glybiau tanwydd yn y Sir, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd nad oes ganddynt brif gyflenwad nwy. Mae'r effaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn drawiadol dros ben.

Cynhaliwyd adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth dydd ym maes anabledau dysgu, gyda golwg ar ddatblygu model gwasanaeth newydd gyda llwybrau dilyniant clir ar gyfer unigolion. Cafodd yr adolygiad hwn ei arwain gan y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau a staff rheng flaen. Cafodd yr adolygiad, sydd wedi tynnu sylw at feysydd o arferion da yn ogystal â meysydd lle mae angen gwelliant, ei groesawu gan y staff. Sefydlwyd strwythur rheoli prosiectau er mwyn gweithredu argymhellion yr adolygiad.

- **Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol.**

Rydym yn gyson yn chwilio am ffyrdd pellach o hyrwyddo'r gwaith o integreiddio ein gwasanaethau yn well i sicrhau bod unigolion yn profi symudiad didrfferth rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y cyswllt hwn rydym wedi datblygu ein Gwasanaeth Trosglwyddo Gofal a Chydgyssylltu ar gyfer yr unigolion hynny a gaiff eu gweld mewn adrannau ysbytai penodol i helpu pobl i ddychwelyd adref gyda'r cymorth iawn cyn gynted â phosibl. Rydym wedi ehangu ymhellach yr asesiadau ar y cyd rhwng staff iechyd a staff gofal cymdeithasol i atal unigolion rhag gorfod ateb yr un cwestiynau gan wahanol bobl broffesiynol. Mae gennym bennaeth gwasanaeth ym maes gofal cymdeithasol i oedolion a gaiff ei gyllido ar y cyd gan y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â rheolwyr ardal leol a gyllidir mewn modd tebyg. Ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn rydym yn datblygu tîm asesu tymor byr newydd yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ardal, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, a fydd yn edrych ar ffyrdd o atal y bobl hynny nad ydynt yn weithredol sefydlog rhag cael eu derbyn i'r ysbyty, a'u galluogi i dderbyn gofal yn agosach i gartref. Rydym hefyd yn parhau i archwilio'r defnydd o gronni adnoddau'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol gyda'i gilydd i'w gwneud yn haws i unigolion dderbyn gwasanaeth heb orfod aros am benderfyniad ynghylch p'un ai cyfrifoldeb y bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol yw gwasanaeth o'r fath. Yn ychwanegol, am y tro cyntaf eleni rydym wedi cynnal asesiad poblogaeth ar y cyd â phartneriaid o awdurdodau lleol eraill a'r bwrdd iechyd i edrych ar anghenion unigolion yn ein hardal yn ogystal â nodi meysydd lle gellid gwneud gwelliannau i wasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolion hynny.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae swyddogion o'r is-adran anabledau dysgu ac iechyd meddwl wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda, y trydydd sector, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Prif nodau'r rhaglen drawsnewid yw gwella mynediad i wasanaethau a datblygu gwasanaethau argyfwng, canolfannau cymunedol ac opsiynau eraill yn lle ysbyty.

Mae ein gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd wedi ymchwilio a datrys tua 3,000 o gŵynion am faterion megis sŵn, arogleuon ac ati. Gall methu â mynd i'r afael â'r materion hyn arwain at effaith negyddol ar lesiant meddyliol ac emosiynol. Er mwyn diogelu iechyd y dinasyddion Sir Gaerfyrddin rydym yn arolygu ac yn addysgu adeiladau bwyd fel rhan o'r system sgorio hylendid bwyd ac yn ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a darparu addysg i'w hatal rhag ymledu ymhellach. Mae'r gwaith parhaus o ddatblygu ein Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol (FESS) wedi creu rhwydwaith cydgysylltiedig o gymorth ar gyfer pobl sydd wedi dioddef camdriniaeth ariannol. Gan ddefnyddio pwerau gorfodi unigryw rydym hefyd yn ymyrryd mewn achosion o ddyled ac iechyd meddwl i amddiffyn unigolion agored i niwed rhag pwysau gan gredydwyr/yn sgil dyledion.

- **Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.**

Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn mynd i'r afael â diogelu oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu'i esgeuluso. Caiff Sir Gaerfyrddin ei chynrychioli ar y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac is-grwpiau cysylltiedig ac mae'n cydweithio â chydweithwyr nid yn unig ynglŷn â sut i amddiffyn oedolion sydd wedi cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso neu sydd mewn perygl o ddiodef hynny, ond hefyd gyda golwg ar ffyrdd o atal unigolion rhag dioddef cam-driniaeth neu esgeulustod o'r fath.

Penodwyd Uwch Reolwr Diogelu yn ystod 2016 i godi proffil diogelu oedolion. Mae Grŵp Gweithredol Lleol wedi cael ei sefydlu ac mae perthnasoedd yn ffurfio sy'n ein galluogi i brofi a herio ein gilydd mewn perthynas â diogelu.

Mae'r prosesau diogelu wedi cael eu symleiddio a chyflwynwyd systemau newydd i fonitro perfformiad yn fwy effeithiol a galluogi penderfyniadau mwy gwybodus ac amserol i gael eu gwneud.

Rydym hefyd yn gweithredu nifer o fesurau penodol yn ymwneud â materion technegol, gwybodaeth a gorfodi i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed. Ar hyn o bryd ceir 10 o is-brosiectau/mesurau a gaiff eu dwyn ynghyd o dan y fenter Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol. Mae'r prosiectau hyn yn amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ariannol a dioddef troseddau.

Mae perfformiad mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn parhau i fod yn her. Mae Dyfarniad y Goruchaf Lys a ostyngodd y trothwyau ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2014 wedi cael effaith arwyddocaol ar y timau gwaith cymdeithasol gyda nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu ddengwaith yn Sir Gaerfyrddin. Mae gennym nifer o aseswyr hyfforddedig yn y timau ond mae'r galwadau cymunedol cynyddol wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni'r rôl. Gwnaethom benodi dau aseswr amser llawn yn ystod 2016 felly er bod y rhestr aros yn lleihau'n raddol, mae'r maes diogelu hwn yn parhau i fod yn achos pryder.

- **Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.**

Mae'r Tim Cyfleoedd wedi darparu cyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth i unigolion ag anabledd dysgu. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu prosiectau ar gyfer y rheiny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd eisoes yn y sefyllfa honno. O'r saith unigolyn a atgyfeiriwyd rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth 2017, mae gan chwech ohonynt bellach lwybr addysgol sefydledig.

Mae'r unigolion sy'n mynychu gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn cael cyfleoedd i wneud crefftau a gwaith yn y Siop Stryd Cyfleoedd. Mae hyn wedi eu gwneud yn fwy hyderus a'u galluogi i gyfrannu at yr hyn sy'n datblygu'n fenter lwyddiannus.

Rydym yn annog unigolion i chwarae rhan fwy yn eu cymunedau trwy eu hannog i ddefnyddio'r credydau amser spice, lle caiff person sy'n helpu yn ei gymuned ei wobrwyo am roi o'i amser. Rydym hefyd wedi datblygu ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n darparu cymorth i unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr y mae angen gwybodaeth neu gyngor arnynt ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn yr awdurdod lleol ac yn y gymuned. I gefnogi'r gwasanaeth hwn rydym hefyd yn datblygu'r gwasanaeth DEWIS ar y we, a fydd yn galluogi unigolion i gael mynediad i'r holl wasanaethau cymunedol sydd ar gael iddynt yn eu hardal. Mae gennym hefyd Swyddogion Cydnerthedd Cymunedol sy'n gweithio ar gyfer yr Awdurdod Lleol a'u hunig rôl yw helpu pobl i nodi gwasanaethau yng nghymuned y person a all ddiwallu ei anghenion. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ym maes iechyd, er enghraifft gyda mentrau megis y rhaglen Foodwise i helpu pobl i ddeall beth yw bwyta'n iach, a rhaglen cleifion arbenigol i hyfforddi pobl sydd â diabetes ynglŷn â sut i fonitro eu symptomau.

Caiff y prosiect llythrennedd ariannol Synnwyr Arian ei ddysgu mewn ysgolion lleol, gan ddysgu hanfodion llythrennedd ariannol a rheoli arian. Hyd yma mae 69 o ysgolion wedi mabwysiadu'r rhaglen.

- **Cynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal perthynas iach â phobl yn y cartref, yn y teulu ac yn bersonol a hynny mewn modd diogel.**

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu ein cerdyn gofalwr sydd yn cefnogi gofalwyr di-dâl yn eu rôl ofalu. Nid yn unig y bydd y cerdyn gofalwr yn rhoi cyfle i'r gofalwr a'r person y mae'n gofalu amdano i ddweud beth yr hoffent ei weld yn digwydd pe na bai'r gofalwr yn gallu parhau â'i rôl ofalu mwyach, bydd yn hefyd yn galluogi'r gofalwr i gael gostyngiadau mewn rhai siopau, a bydd yn gweithredu fel cerdyn adnabod fel bod y gofalwr yn gallu cael mynediad am ddim i leoedd penodol megis theatrau a chanolfannau hamdden wrth fynd gyda'r person y mae'n gofalu amdano. Rydym hefyd yn cynnig gofal amgen yn y cartref, sydd yn rhoi seibiant i'r gofalwr o'i rôl ofalu er mwyn gwneud tasgau angenrheidiol eraill megis siopa, neu er mwyn cael ychydig oriau i ffwrdd i fwynhau gweithgaredd hamdden. Yn ogystal, rydym yn cynnig seibiant i'r gofalwr a'r person y mae'n gofalu amdano er mwyn rhoi amser iddynt i ffwrdd o'u trefn arferol. Mae'r camau hyn yn gwneud llawer i gynorthwyo gofalwyr, sydd yn aml yn aelodau o'r teulu, i gynnal perthynas ardderchog â'r person y mae'n gofalu amdano.

Mae annog cymorth gan y teulu a chyswllt â nhw yn hollbwysig i lawer o'n defnyddwyr gwasanaeth a all fod yn oedrannus, yn agored i niwed neu wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Lle mae'r cymorth yn brin rydym yn helpu'r sawl sy'n dioddef hynny ac yn gwneud atgyfeiriadau fel sy'n briodol. Lle caiff perthynas anodd ei nodi rydym yn eiriol rhwng y partiön, gan dderbyn cyngor/arweiniad gan dimau gofal cymdeithasol eraill ac atgyfeirio fel sy'n briodol. Lle caiff perthynas amhriodol ei nodi mae'n bosibl y byddwn yn cynnal ymchwiliad troseddol, gan gysylltu ag adrannau Amddiffyn Oedolion, Iechyd Meddwl a'r Heddlu.

Mae'r tîm camddefnyddio sylweddau wedi darparu ystod o ddatrysiadau arloesol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rheiny sy'n peri'r risg mwyaf. Cafodd y tîm ei gydnabod fel maes arferion da gan Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Prydain (BASW) y llynedd. Mae'r bobl sydd wedi elwa o'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhieni, pobl hŷn, pobl sydd â phroblemau iechyd corfforol a meddyliol a'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae'r tîm hefyd wedi darparu cyngor arbenigol i dimau gwaith cymdeithasol ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant gan ymateb i 135 o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill 2016 a mis Ionawr 2017.

- **Gweithio gyda a chynorthwyo pobl i gyflawni gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.**

O ran helpu pobl i gael gwell llesiant economaidd nid yn unig yr ydym yn darparu cyngor ynghylch budd-daliadau llesiant mewn amgylchiadau penodol, rydym hefyd yn helpu eraill i gysylltu â sefydliadau eraill sy'n darparu cyngor megis Cymorth Hyblyg. Rydym yn annog pobl i gael bywyd cymdeithasol, ac un o'r meysydd yr ydym yn awyddus i'w ddatblygu ar gyfer pobl sydd am gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden penodol yw gallu rhannu cost y gweithgaredd hwnnw gydag eraill sydd hefyd yn derbyn taliad uniongyrchol drwy gyfuno eu taliadau.

Mae ein Swyddogion Chwaraeon a Hamdden wedi mabwysiadu dull sy'n arwain y sector o gyflwyno mentrau ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn sefydlu rhaglenni gweithgarwch corfforol cynaliadwy yn y gymuned. Maent yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon y sir er mwyn cwblhau archwiliadau cynhwysfawr o glybiau. Mae'r ddarpariaeth nofio wedi cynyddu, gyda gwersi nofio mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno ein rhaglen 'Sblash', sy'n rhoi gwersi nofio i blant o 4 mis oed ymlaen.

Mae nifer y plant a atgyfeiriwyd at y "Cynllun Bywiogi" sy'n arwain y sector (Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff - NERS) wedi cynyddu gyda chyfraddau cwblhau'r rhaglen 16 wythnos.

Rydym yn gyson yn edrych ar ffyrdd y gallwn gynorthwyo pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, a phan na allant wneud hynny rydym yn edrych ar ffyrdd y gall pobl gael llety sy'n rhoi cymaint o annibyniaeth iddynt ag sy'n bosibl. Yn hyn o beth rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Tai i gynyddu amrywiaeth yr opsiynau llety sydd ar gael, yn ogystal ag adolygu rhai o'n lleoliadau preswyl presennol i sicrhau bod unigolion yn yr amgylchedd gorau i gyflawni eu canlyniadau.

Mae'r Awdurdod Lleol yn arwain datblygiad yn Llynnoedd Delta yn Llanelli. Mewn datblygiad uchelgeisiol mae cynlluniau a chyllid bellach yn eu lle ar gyfer Pentref Llesiant a fydd yn cynnwys cyfleusterau hamdden, gofal ychwanegol, darpariaeth iechyd a gofal nyrsio. Nod y prosiect adfywio hwn yw trawsnewid ein hymagwedd tuag at Iechyd a Llesiant yn Llanelli.



Eisoes mae partneriaethau cyffrous â chwmnïau Technoleg Uwch Rhyngwladol ar waith i dreialu technoleg yn ein gwasanaethau, er mwyn cynnig gwell cymorth i bobl a'u cadw yn eu cartrefi eu hunain. Bydd y partneriaethau hyn yn cael lle blaenllaw yn y datblygiad newydd.

Un swyddogaeth graidd, yn ogystal â blaenoriaeth gwasanaeth cenedlaethol, yw hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn, sydd yn hybu llesiant personol a llesiant cymdeithasol ac economaidd ehangach. Nid yn unig y mae ein gwaith yn ceisio cyflawni gwell llesiant economaidd, mae hefyd yn helpu i gadw a chynnal llesiant economaidd trwy amddiffyn busnesau cyfreithlon rhag darparwyr cynhyrchion/gwasanaethau ffug neu nad ydynt o safon dderbyniol, ac amddiffyn defnyddwyr ymhellach rhag y colledion ariannol a ddaw yn sgil twyll ac arferion anghyfreithlon eraill. Mae addasiadau i'r amgylchedd ffisegol megis gweithredu parthau dim galw heb wahoddiad neu osod teclynnau atal galwadau niwsans yn helpu i gadw annibyniaeth a gwella'r llety. Mae darparu cyngor proffesiynol pellach ac eiriolaeth mewn achosion o gŵynion ynghylch gwelliannau i'r adeilad/cartref, arferion y landlord/ystâd/asiant gosod a rheoleiddio cynhyrchion/gwasanaethau adeiladau yn helpu i gadw llesiant economaidd ac yn sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, bod y llety yn parhau i fod yn addas.

Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion

Ein gweithlu a'r modd yr ydym yn cefnogi eu rôl broffesiynol

Ein nod yw sicrhau bod gwybodaeth, sgiliau, cymwyseddau ac agweddau'r staff yn cael eu datblygu i fodloni ein hamcanion busnes a bod pobl yn Sir Gaerfyrddin sy'n derbyn gwasanaethau yn cael eu cefnogi gan staff medrus a chymwys. Mae gennym ymrwymiad cryf i sicrhau bod goruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad yn digwydd yn rheolaidd. Darperir rhaglen ymsefydlu i'r holl staff gan ddilyn cynllun.

Caiff rheolwyr dargedau ar gyfer arfarniadau unigol, ac mae angen bod y rhain yn cyfeirio at gynlluniau'r tîm a'r is-adran ac yn cysylltu â'r amcanion corfforaethol.

Yn 2016/17, cyflwynodd y Ddeddf dros 9,012 o gyfleoedd dysgu a datblygu i weithwyr ledled y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan, a oedd yn cynnwys 2,594 o staff o'r sector gofal annibynnol, a chawsant eu cefnogi gan grant o £596,250 gan Lywodraeth Cymru.

Mae Tîm Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi parhau i gyflwyno rhaglen o hyfforddiant ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.

Cafodd dros 644 o leoedd eu llenwi gan staff mewnol a staff o'r sector annibynnol ar draws y modiwlau craidd canlynol:

- Cyflwyniad a Swyddogaethau Cyffredinol - 160
- Asesu a Diwallu Anghenion Unigolion - 126
- Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya - 112
- Diogelu - 246

Cynhaliwyd ystod eang o ddigwyddiadau yn 2016-17 i helpu ymarferwyr i wella a datblygu eu sgiliau. Roedd y rhain yn cynnwys y rhaglenni canlynol:

- Derbyniodd 598 aelod o staff hyfforddiant ar ystod o raglenni'n ymwneud â dementia.
- Bu 483 aelod o staff yn bresennol mewn sesiynau ar 'Ymwybyddiaeth Hanfodol o Ddiogelu'.
- Dilynodd 328 aelod o staff ar draws y Cyngor fodiwl e-ddysgu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.
- Cyflawnodd 139 o weithwyr cymdeithasol Unedau, Tystysgrifau a Diplomau Iechyd a Gofal Cymdeithasol QCF. Yn ogystal â hyn, enillwyd Tystysgrifau a chymwysterau Rheoli ac Ôl-gymhwyso hefyd, yn amrywio o Lefel 2 i Lefel 7.
- Derbyniwyd a secondiwyd 44 o bobl gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i hyfforddi fel Gweithwyr Cymdeithasol.
- Cwblhaodd 13 o Weithwyr Cymdeithasol gyrsiau Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus.
- Yn ogystal â'r rhain, dechreuodd 14 Gweithiwr Cymdeithasol ar y Rhaglen Gadarnhau wedi iddynt lwyddo i gwblhau eu blwyddyn gyntaf o ymarfer cymwys.
- Mae hyfforddiant yn y Gymraeg yn parhau i gael ei ddarparu, gyda thros 130 aelod o staff o bob rhan o'r Gwasanaethau Cymunedol yn dilyn y rhaglen 'Welcome to Welsh'.

Mae Llesiant ein gweithlu wedi bod yn destun llawer o ymdrech ac egni dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi penodi 'Hyrwyddwyr Iechyd yn y Gweithle' sydd yn mynd ati i hyrwyddo mentrau iechyd cadarnhaol ledled y gweithlu, gan gynnwys peth gwaith arolygu iechyd sylfaenol, a chodi ymwybyddiaeth.

Cefnogwyd cydnerthedd y gweithlu trwy roi cyfarwyddyd i reolwyr ynghylch arwyddion straen, a rheoli straen. Hwyluswyd sesiynau grŵp er mwyn archwilio strategaethau ymdopi gyda therapyddion, ar gyfer timau lle bu farw cydweithiwr yn ddisymwth, neu lle cafodd aelod o'r tîm ddiagnosis o ganser.

Datblygwyd modiwl e-ddysgu lechyd Meddwl yn y gweithle a'i roi ar waith, ac mae'n parhau i gael ei gyflwyno ar draws y gweithlu.

I atgyfnerthu'r holl weithgarwch hwn mae'r Awdurdod wedi derbyn ail-achrediad Safon lechyd Corfforaethol Platinwm.

Datblygwyd a gweithredwyd polisiau cyflogaeth megis 'Safonau Ymddygiad yn y Gweithle', ynghyd â pheth datblygiad heriol a phryfoclyd i reolwyr ynghylch rheoli gwrthdaro. Un peth sydd wedi bod yn nod allweddol yw atgyfnerthu pwysigrwydd gweithlu hapus a pherthynas gadarnhaol yn y gweithlu, a diwylliant lle caiff ymddygiad annerbyniol ei herio, gan fod yn driw i'n gwerthoedd craidd.

Mae'r Adran wedi bod yn awyddus i archwilio ffyrdd mwy arloesol ond sydd eto'n strwythuredig o gynnal a chofnodi arfarniadau. Rydym yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr corfforaethol i ddatblygu atebion TG ar gyfer y rhan o'r fenter hon sy'n ymwneud â chofnodi.

Mae Partner Busnes Adnoddau Dynol pwrpasol yn aelod newydd o Dîm Rheoli'r Adran yn 2017. Rhan allweddol o'i rôl yw cynorthwyo'r tîm rheoli i gynllunio, gyda ffocws ar sicrhau y bydd gennym yn y dyfodol y gweithlu cywir i gyflawni'r canlyniadau gwasanaeth.

Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer dyfodol Oedolion a Phlant.

Er gwaethaf nifer o flynyddoedd o orwario yn y Gwasanaethau Pobl Hŷn rydym wedi bod yn cyrraedd ein targedau cyllideb yn llwyddiannus am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae 2016/2017 wedi bod yn flwyddyn heriol gan ein bod wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau a gweithgareddau. Rydym yn cydweithio â phartneriaid i wella a moderneiddio ein gwasanaethau a rhoi deddfwriaeth bwysig ar waith yn wyneb llymder ariannol. Mae gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau wedi bod yn flaenoriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi datblygu isadeiledd i sicrhau gwerth am arian wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym wedi gwneud hyn trwy'r ffyrdd canlynol:

- Cyfarfodydd perfformiad misol gyda rheolwyr sydd yn cynnwys perfformiad ariannol, ac mae cydweithwyr ym maes cyllid yn dod iddynt.
- Cyfarfodydd llety ac effeithlonrwydd misol i reoli gwariant mewn perthynas â phecynnau gofal preswyl a chymunedol yn ogystal â datblygu opsiynau eraill o ran llety sydd yn fwy cost effeithiol.
- Gwell data perfformiad sydd yn galluogi rheolwyr i ddeall y gwariant a'r costau rhagamcanol.
- Mae'r gwaith wedi symud yn ei flaen eleni i fod â chyllidebau datganoledig.
- Hyfforddiant i reolwyr ynghylch rheoli cyllideb.
- Cynllun manwl sy'n amlinellu ein cynlluniau ar gyfer bod yn fwy effeithlon ac y mae'r rheolwyr yn ei ddeall.
- Cynnal digwyddiadau hyfforddi gyda staff rheoli gofal i annog ataliaeth a chydnerthedd unigol a chymunedol.
- Adolygu ein gwasanaethau i sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithiol ac yn datblygu modelau cynaliadwy.

Crynodeb o'r Gyllideb

Cyllideb Sylfaenol 2017-2018	Gwariant	Incwm	Net
Comisiynu	1,713	0	1,713
Tai a Diogelu'r Cyhoedd	27,174	-16,259	10,915
Gwasanaethau Integredig	48,359	-13,745	34,614
Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu	42,309	-12,109	30,200
Gwasanaethau Plant	24,505	-5,701	18,804
Cyfanswm	144,060	-47,814	96,246

Mae datblygu cyllidebau cyfun ar draws y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer cartrefi gofal yn orfodol erbyn 2018. Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud i oresgyn yr heriau a ddaw yn sgil hyn.

Ein harweinyddiaeth wleidyddol leol, llywodraethu ac atebolrwydd

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yw Cadeirydd y Grŵp Gweithredol CYSUR. Mae'r aelodau etholedig yn gefnogol i'r Gwasanaethau Plant ac yn ymweld â thimau'r rheng flaen yn rheolaidd. Cafodd hyn ei gydnabod gan AGGCC yn eu hadborth (2016):

"Roedd yna gyfeiriad strategol clir ar gyfer y gwasanaethau plant, a oedd yn cael eu harwain yn effeithiol gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant. Roedd gan y Gwasanaethau Plant ymrwymiad cryf i ddysgu a datblygu, roedd y staff yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd ac yn gwerthfawrogi hyn.

**Roedd yr arolygwyr yn falch o sylwi fod yr aelodau etholedig, yr uwch arweinwyr, y rheolwyr a'r staff yn ymrwymedig i gyflawni gwelliannau yn yr help, y gefnogaeth a'r amddiffyniad a ddarperir i blant a theuluoedd.
(Adroddiad Arolygu AGGCC 2016)."**

Mae'r cytundeb Adran 33 yn gosod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gadarn i archwilio cyfleoedd pellach i 'gyfuno' cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn unol â Rhan 9 y Ddeddf. Mae sefydlu cronfeydd cyfun yn rhywbeth sydd wedi cael ei nodi gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer rhanbarth Gofal Gorllewin Cymru.

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol eraill yn cynnwys Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a chynllunio, darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gweithredu systemau integredig, e.e. System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a threfniadau comisiynu rhanbarthol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Integredig Sir Gaerfyrddin yn adrodd yn uniongyrchol wrth Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ac yn sicrhau bod y blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y naill sefydliad a'r llall yn cael eu cyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol ar lefel weithredol.

Sefydlwyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sgil Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ein Polisi Diogelu Corfforaethol yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth ymhlith staff, cynghorwyr a phobl sy'n gweithio ar ein rhan ynghylch y canllawiau sydd ar waith er mwyn diogelu plant ac oedolion.

Mae gennym gynlluniau gweithredu ar gyfer y Tîm Diogelu Pobl, Amddiffyn Oedolion a Diogelu Corfforaethol, a rhoddir blaenoriaeth uchel i'r rhain.

Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gydymffurfio â'r ddyletswydd 'atal' o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau chwarae rhan trwy ymateb i'r her ideolegol - gan gynnwys rhoi cyngor a chymorth i helpu i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth.

Felly, os ydym yn meddwl bod person mewn perygl o gael ei radicleiddio, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i asesu'r sefyllfa, a datblygu cynllun cymorth ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

Mae'r strwythur canlynol yn amlinellu'r drefn Arweinyddiaeth a Llywodraethu ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a sut yr ydym yn gweithredu o fewn proses y Cyngor o wneud penderfyniadau. Caiff yr holl benderfyniadau a pholisïau mawr eu gwneud gan y Cyngor Sir.

Cyngor Sir Caerfyrddin	74 aelod etholedig
Y Bwrdd Gweithredol	10 aelod etholedig, cabinet y Cyngor. Arweinydd y Cyngor yw'r Cadeirydd, sef y Cynghorydd E. Dole
Aelodau ein Bwrdd Gweithredol	Y Cynghorydd Jane Tremlett - Gwasanaethau Oedolion Y Cynghorydd Glynog Davies - Gwasanaethau Plant
Y Pwyllgorau Craffu	Mae aelodau etholedig hefyd yn craffu ar y penderfyniadau a wnawn. Mae gennym y pwyllgor craffu canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Gofal Cymdeithasol ac Iechyd • Addysg a Phlant
Y Tîm Rheoli Corfforaethol	Caiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Prif Weithredwyr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwyr
Y Tîm Rheoli Adrannol	Yr Adran Cymunedau, y Cyfarwyddwr yw'r Cadeirydd
Cyfarfodydd Gwasanaeth a Pherfformiad yr Uwch Reolwyr	Pennaeth y Gwasanaethau yw'r Cadeirydd
Cyfarfodydd Tîm	Mae pob un o dimau'r is-adran yn cael cyfarfodydd tîm sy'n cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r rheolwyr yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'w timau ynghylch y penderfyniadau a wnaed trwy gyfuniad o gyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd un i un/goruchwylio.

Strwythur Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin



Jake Morgan
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol



Ian Jones
Pennaeth Hamdden

- Hamdden a Chwaraeon
- Canolfannau Hamdden, Iechyd a Ffitrwydd,
- Datblygu Chwaraeon
- Nofio
- Hamdden Awyr Agored
- Cynnal a hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Gwasanaethau Diwylliannol
- Llyfrgelloedd
- Amgueddfeydd
- Archifau
- Theatrau
- Y Celfyddydau ac Oriolau



Robin Staines
Pennaeth Tai, Diogelu'r Cyhoedd a Gofal a Chymorth

- Darparu Gwasanaethau Gofal a Chymorth effeithiol
- Rheoli Gofal Preswyl, Canolfannau Dydd a Gofal Cartref Mewnol y Cyngor
- Diogelu'r Cyhoedd
- Y Gwasanaeth Tai



Avril Bracey
Pennaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu

- Iechyd Meddwl
- Anableddau Dysgu
- Gwaith a Sgiliau Newydd
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau
- Diogelu
- Gwasanaethau Pontio



Rhian Dawson
Pennaeth y Gwasanaethau Integredig

- Pobl Hŷn
- Anableddau Corfforol
- Therapi Galwedigaethol
- Gofal Preswyl a Nyrsio
- IAA



Chris Harrison
Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd Dros Dro (Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin)

- Comisiynu cymorth i Oedolion
- Cefnogi Pobl
- Atal a humanagymorth
- Adeiladu gallu a chydnerthedd cymunedol
- Cynyddu annibyniaeth pobl gyda maint ag y bo modd



Stefan Smith
Pennaeth y Gwasanaethau Plant

- Diogelu
- Maethu a Mabwysiadu
- Anghenion Cymhleth a Phontio
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd
- Seicoleg Addysg

Atodiad 1

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2017/2018?

Y Gwasanaethau Plant

- Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar i deuluoedd dan anfantais sydd â phlant (0-3 oed) ac sy'n byw mewn cymunedau amddifad penodol, gan sicrhau bod cymorth amlasiantaeth da yn cael ei roi i deuluoedd ar draws y sbectrwm angen drwy ddatblygu llwybrau clir gyda phartneriaid mewnol ac allanol.
- Byddwn yn gweithio tuag at gyflwyno'r cynnig gofal plant gwell i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 a 4 oed yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a chymorth ariannol / adnoddau yn ogystal â chynyddu nifer y gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd a dargedir o'r Sir.
- Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio tir ysgolion y tu allan i'r oriau dysgu i alluogi plant i gael mwy o fynediad i gyfleoedd chwarae.
- Byddwn yn cynllunio ac yn ailgomisiynu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (0-25 oed) gan weithredu newidiadau mewn ymateb i ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru, trwy gyflwyno gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd dan anfantais ledled y Sir.
- Byddwn yn parhau i ymestyn y dull Tîm o Amgylch y Teulu ar draws y sir ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed, gan egluro trothwyau i helpu i roi gwybod i deuluoedd ac asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r help iawn ar yr adeg iawn. Byddwn yn datblygu dogfen drothwy i gefnogi'r arfer hwn.
- Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn bodloni anghenion y Gwasanaethau Plant drwy ddarparu cyngor arbenigol, cymorth a mewnbwn uniongyrchol i dimau rheng flaen.
- Byddwn yn mynd ati i gymryd rhan yn yr adolygiad rhanbarthol o drothwyau amddiffyn plant a threfniadau amlasiantaeth i archwilio achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a gweithredu'r model 'MACSE' (dull amlasiantaeth o ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant).
- Byddwn yn parhau i drawsnewid arferion gwaith cymdeithasol plant drwy gyflwyno model systematig o weithio'r Uned Plant a Theuluoedd yn ein timau gwasanaethau plant (Podiau) a chyfuno'n gydlynol â 'Signs of Safety'
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu'r modd yr ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hawdd ei chyrru, a chysylltu â'r system Dewis.
- Byddwn yn adolygu, yng ngoleuni canllawiau newydd, rôl ysgolion, cynghorwyr, a phartneriaid o ran rhianta corfforaethol.

Gwasanaethau Oedolion

- Cyfrannu at raglenni trawsnewid iechyd ym maes iechyd meddwl ac ailgynllunio gwasanaethau ym maes anableddau dysgu.
- Adolygu contractau'r trydydd sector i sefydlu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a thrawsnewid gwasanaethau ym maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu.
- Sefydlu a hyrwyddo ymagwedd "Mater i Bawb" tuag at ddiogelu yn Sir Gaerfyrddin trwy weithio gyda chydweithwyr o'r awdurdod lleol ac asiantaethau partner, gan sicrhau ymagwedd sy'n rhoi'r unigolyn yn y canol.
- Adolygu ein gwasanaeth anabledd i sicrhau bod yna bontio a llwybrau di-dor o fod yn blant i fod yn oedolion.
- Datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu.
- Ailfodelu darpariaeth ddydd i ddarparu cyfleoedd ystyrlon a llwybrau cynnydd.
- Sefydlu'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau ar lefel leol; sicrhau bod cydnerthedd cymunedol yn cael ei ddatblygu a bod y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn diwallu anghenion y boblogaeth leol.
- Byddwn yn parhau i ail-alinio a moderneiddio i ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth effeithlon i Oedolion Hŷn sy'n hyrwyddo iechyd ac atal salwch er mwyn cynyddu annibyniaeth a chanlyniadau llesiant ein poblogaeth gymaint ag y bo modd.
- Moderneiddio'r gweithlu i gefnogi broses o weithredu'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r amcanion a amlinellwyd yn 'Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin am Wasanaethau Cynaliadwy ar gyfer Pobl Hŷn am y Ddegawd Nesaf' a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.
- Datblygu'r gwaith o gomisiynu gofal a chymorth mewn modd doeth a sicrhau bod adolygiadau amserol yn cael eu gwneud o anghenion yr unigolyn.
- Hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau y cydymffurfir â'r 'Cynnig Gweithredol' ledled yr holl feysydd gwasanaeth.
- Sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer yr adolygiadau ar gyfer pobl sydd â phecynnau gofal.